roddwyd ar gyfer pob archwiliad a wnaed ym mhob blwyddyn ariannol yn sail i'r broses pan fo gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio a Chaffael, dan y Cod uchod, gynnwys barn ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol rheolaeth fewnol amgylchedd yr Awdurdod, a hynny yn ei adroddiad blynyddol ffurfiol i'r Pwyllgor Archwilio.

**Graddio Categorïau Risg**

17 Caiff yr argymhellion eu categoreiddio ar y sail ganlynol:

**CATEGORI : UCHEL**

Mae'r categori hwn yn golygu gwendid sylfaenol, lle bo camau'n cael eu hystyried yn orfodol er mwyn sicrhau nad yw'r Awdurdod yn agored i risgiau uchel. Tor-cyfraith neu dorri gweithdrefnau'r Awdurdod, yn cynnwys y Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog Cytundebau, neu wendidau sylfaenol mewn systemau lle mae diffyg trefn reoli allweddol ayyb. Pan fo diffyg rheolaeth allweddol/bwysig, yna, fel arfer, caiff yr argymhelliad cysylltiedig ei raddio'n uchel.

**CATEGORI : CANOLIG**

O ran risgiau canolig, mae camau'n cael eu hystyried yn orfodol er mwyn osgoi bod yn agored i risgiau mawr. Defnyddir y categori hwn pan fo tystiolaeth fod rheolaethau da mewn lle, ond lle bo'r defnydd ohonynt yn anghyson, neu le nad oes rheolaeth ddisgwyliedig yn bresennol, ac y byddai rheolaeth gyffredinol yn gwella trwy ei chael yn bresennol.

**CATEGORI : ISEL**

Ystyrir camau'n beth dymunol, ac y dylai hynny arwain at ragor o reolaeth neu ragor o werth am arian. Defnyddir y categori hwn pan fo ymwybyddiaeth o arferion gwell, ond lle bo'r amcanion rheoli'n dal i gael eu cyflawni, neu lle bo'r gweithgarwch/gwerth presennol yn isel, ac yn debygol o barhau felly, canlyniad hyn yw categoreiddio'r risg yn un isel ac nid yw'n cael effaith fawr ar 'Farn yr Archwiliad'.

